

Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS – 16-00 (min)

COFNODION

Dyddiad: Dydd Iau, 14 Medi 2000

Amser: 1.30 i 4.55pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

Yn bresennol: Aelodau

Kirsty Williams (Cadeirydd) Aberhonddu a Sir Faesyfed

Jocelyn Davies De Ddwyrain Cymru

Jane Hutt (YC) Bro Morgannwg

Pauline Jarman Canol De Cymru

Ann Jones Dyffryn Clwyd

Dai Lloyd De Gorllewin Cymru

David Melding Canol De Cymru

Alun Pugh Gorllewin Clwyd

Gwenda Thomas Castell-nedd

Yn bresennol

Denis Jessopp Cadeirydd, Grp Datblygu Strategol Amserau Aros

Brian Davies Grp Datblygu Strategol Amserau Aros

Declan O'Doherty Grp Datblygu Strategol Amserau Aros

Swyddogion

Dr Ruth Hall	Prif Swyddog Meddygol
Rosemary Kennedy	Prif Swyddog Nyrsio
Mike Shanahan	Adran Polisi Gofal Cymdeithasol
Dr Sarah Watkins	Is-adran Gwella a Diogelu Iechyd
Colin Williams	Is-adran Rheoli Perfformiad yr NHS
Graham Williams	Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Jane Westlake	Clerc
Claire Morris	Dirprwy Clerc

Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Amnewidiadau

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Geraint Davies, Helen Mary Jones a Lynne Neagle. Cymerodd Pauline Jarman, Jocelyn Davies a Gwenda Thomas eu lle.

1.2 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau o'r gofyniad, o dan Reol Sefydlog 4.5, i ddatgan unrhyw ddiddordebau cyn cymryd rhan yn y trafodion. Datganodd Dai Lloyd ddiddordeb fel meddyg teulu a Pauline Jarman fel aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Argyfwng Tanwydd

1.3 Gwnaeth Jane Hutt ddatganiad ar effaith yr argyfwng tanwydd ar yr NHS a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru. Ceir copi yn Atodiad A. Croesawodd aelodau y datganiad gan ddiolch i'r gwasanaethau brys a staff yr NHS a oedd wedi parhau i weithio mewn amgylchiadau anodd o'r fath. Ceisiwyd cael sicrhad hefyd y byddai staff yn parhau i dderbyn y tanwydd yr oedd ei angen arnynt trwy gydol y cyfnod trawsnewidiol.

Pwyllgor Cyn-16

1.4 Dywedodd David Melding wrth y Cadeirydd nad oedd wedi gallu mynychu cyfarfod y Pwyllgor Addysg Cyn 16oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar i gynrychioli safbwyntiau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Anghenion Addysg Arbennig oherwydd bod y ddau Bwyllgor yn cwrdd ar yr un pryd. Roedd wedi trosglwyddo ei sylwadau i'r Cadeirydd Cyn 16.

Camau i'w gweithredu

Y Clerc i drafod gyda Chlercod Pwyllgorau eraill ynghylch amseru'r cyfarfodydd pan fydd aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael ei enwebu i gynrychioli'r Pwyllgor mewn Pwyllgor arall.

Eitem 2: Adroddiad Misol yr Ysgrifennydd Cynulliad

Papur: HSS –16-00 (p.1)

Y Prif Bwyntiau Trafod

2.1 Gwnaeth yr Ysgrifennydd Cynulliad y pwyntiau canlynol mewn ymateb i'r prif gwestiynau gan aelodau:

- Roedd crynodeb o'r argymhellion a gafwyd yng Nghynllun Cenedlaethol NHS Lloegr a'r effaith yng Nghymru yn cael ei baratoi a byddai ar gael i aelodau.
- Byddai diweddariad ar Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yn cael ei gynnwys ym mhob adroddiad misol yn y dyfodol.
- Bellach roedd £3.3m ychwanegol ar gael ar gyfer clefyd coronaidd y galon yng Nghymru ac roedd angen ystyried sut y byddai modd defnyddio'r arian hyn yn effeithiol.
- Cydnabuwyd pwysigrwydd adroddiadau arolygon ar y cyd am eu bod yn darparu darlun cynhwysfawr ar draws yr Awdurdodau.
- Ni dderbyniwyd cynlluniau gan bob Awdurdod Lleol ar gyfer arian Grant Arbennig Gofalwyr.

2.2. Dywedodd Graham Williams y byddai Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a'r Comisiwn Archwilio yn gweithio gydag awdurdodau lleol ar amseru cynlluniau gweithredu gan roi cyfarwyddyd yn ôl yr angen.

Camau i'w gweithredu

Byddai unrhyw awdurdod lleol na chyflwynodd gynllun ar gyfer arian Grant Arbennig Gofalwyr yn cael ei atgoffa.

Eitem 3: Adroddiad Dros Dro ar Grp Datblygu Strategol Amserau Aros

Papur: HSS-16-00(p.2)

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Denis Jessopp, Brian Davis a Declan O'Doherty i'r cyfarfod.

3.2 Wrth drafod, codwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

Mesurau i wella cysondeb a chyfiawnder

Dywedodd aelodau o'r grp datblygu

Byddai system TG safonau agored yn darparu'r hyblygrwydd i allu datblygu ac addasu ac ystyriwyd ei bod yn well na system caffael Cymru-gyfan.

Ni fyddai system derbyniadau a sicrheir ymlaen llaw yn debygol o weithio os gwnaed apwyntiadau fwy na chwe mis ymlaen I law. Roedd astudiaeth beilot a oedd yn gweithredu yng Ngwent ac yn defnyddio derbyniadau a sicrheir ymlaen llaw wedi dangos gostyngiad o dros 33% yn absenoldeb cleifion.

Roedd angen cyfleusterau gofal sylfaenol gwell er mwyn lleihau'r galw am ofal eilaidd.

Gwnaeth aelodau'r Pwyllgor y sylwadau canlynol:

- Roedd buddsoddiad mewn TG yn hanfodol, nid yn unig yn nhermau offer ond hefyd amser a hyfforddiant staff.
- Roedd angen mwy o fuddsoddiad mewn addysg feddygol israddedig er mwyn i feddygon teulu gael y sgiliau y byddai eu hangen arnynt pe baent yn lleihau achosion a gyfeiriwyd.

Buddsoddi mewn gallu ychwanegol

Mewn ymateb i sylwadau gan aelodau'r Pwyllgor, dywedodd aelodau o'r grp datblygu:

- Nid oedd yr opsiynau a amlinellwyd yn yr adroddiad wedi cael eu priso'n benodol, ond byddai canlyniadau nifer o brosiectau peilot yn rhoi gwell syniad o gostau.
- Nid targedu buddsoddiad at berfformwyr gwael ar draul y sawl a oedd yn perfformio'n dda oedd y bwriad.
- Byddai angen staff ychwanegol er mwyn gallu gweithio saith diwrnod.
- Nid oedd modd gwarantu bod cyfleusterau dewisol yn cael eu diogelu ond hwyrach trwy wahanu gofal dewisol a gofal brys, gellid lleihau'r ymyriad â llawfeddygaeth ddewisol gynlluniedig. Roedd cyfuniad cymhleth o ffactorau yn ymwneud ag amseru ac argaeledd

gwelyau. Roedd angen dadansoddi'r ôl-groniadau ym mhob arbenigedd ar wahân.

Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Cynulliad at gynigion i gyflwyno moderneiddiad cyflog ar draws pob proffesiwn. Dywedodd fod angen edrych ar allu yn nhermau anesthetyddion, cyfleusterau llawfeddygaeth, nyrsys ayb, yn ogystal â llawfeddygon.

Rhaglenni ar gyfer annog a chyflwyno arloesoedd

- Cytunodd aelodau'r Pwyllgorau ac aelodau'r Grp Datblygu ar y canlynol:
- Gallai addysg a hybu iechyd gyfrannu'n fawr at leihau galw, er nad oedd y grp wedi edrych yn benodol ar hyn.
- Effeithiwyd ar ysbryd y staff ar draws yr NHS, nid yn unig gan gyflog ac amodau ond hefyd gan y ffaith nad oedd ganddynt fynediad i'r offer diweddaraf.
- Bu'r staff hefyd o dan bwysau cynyddol yn sgîl disgwyliadau'r cyhoedd ac roeddent yn fwy cyfarwydd â derbyn cwynion na diolchiadau.

Dywedodd aelodau o'r gweithgor

- croesawyd y rhaglen Arloesedd mewn Gofal oherwydd byddai'n cyflwyno ymagwedd gyson at brotocolau a gweithdrefnau
- Rhoddwyd ystyriaeth i ymestyn yr wythnos waith neu ddefnyddio dyddiau mewn trefn wahanol. Gellid cymhwyso hyn ar draws bob proffesiwn er mwyn helpu i leihau nifer y cleifion a oedd yn aros yn yr ysbyty yn ddiangen tra'n aros am wasanaethau adfer. Nododd aelodau y byddai hyn hefyd yn rhoi'r hyblygrwydd i staff allu strwythuro eu hwythnos waith mewn ffyrdd gwahanol.

Rheoli a gwybodaeth rheoli gwell

Cyflwynwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau'r Grp Datblygu:

- Roedd diffyg cyfathrebu rhwng ysbytai a gofal sylfaenol a rhwng staff meddygol a gweinyddol yn arwain at greu rhwystrau yr oedd angen eu dymchwel.
- Roedd meddygon teulu yn aml yn dod o dan bwysau wrth deuluoedd i gyfeirio cleifion i'r ysbyty yn ddiangen. Yn y dyfodol gallai cynlluniau ymateb cyflym gynnig dewis arall i feddygon teulu.

3.3 Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Grp Datblygu am eu cyfraniad, ac edrychodd y Pwyllgor ymlaen at ddatblygiadau pellach ac at dderbyn yr adroddiad terfynol maes o law. Diolchwyd i staff yr NHS hefyd am eu parodrwydd i weithio mewn partneriaeth gyda'r Cynulliad.

Casgliad

Cymeradwyodd y Pwyllgor gasgliadau'r adroddiad dros dro.

Eitem 4: Gofal Hir Dymor yr Henoed yng Nghymru

Papur: HSS-16-00 (p.3)

4.1 Amlinellodd yr Ysgrifennydd Cynulliad gynigion y Cabinet i weithredu ymateb Llywodraeth y DU i'r Comisiwn Brenhinol ar Ofal Hir Dymor yng Nghymru.

4.2 Codwyd y pwyntiau canlynol wrth drafod:

Gofal Nyrsio Am Ddim

Roedd rhai aelodau yn erbyn y cynnig hwn, oherwydd nad oedd yn mynd mor bell ag argymhelliad y Comisiwn Brenhinol ar gyfer darparu gofal personol am ddim. Dylid sicrhau bod gwybodaeth ar opsiynau ar gyfer gofal hir dymor ar gael yn gynyddol, yn enwedig mewn ysbytai a meddygfeydd meddygon teulu. Roedd angen rhoi eglurhad i'r cyhoedd ar yr hyn yr oedd gofal nyrsio yn ei gwmpasu a pha weithdrefnau a oedd ar waith i asesu gofal nyrsio. Roedd gwaith ar ddatblygu meini prawf asesu eisoes ar waith a'r bwriad oedd mai nyrsys cofrestredig fyddai'r cydlynwyr asesu ac angen canolog.

4.3 Gofynnodd yr Ysgrifennydd Cynulliad i'r aelodau fabwysiadu agwedd gyfannol wrth ystyried anghenion hir dymor yr henoed a byddai'n datblygu strategaeth at y diben hwnnw. Roedd cost sylweddol uniongyrchol i ofal personol ac yn y tymor hwy, ond byddai ond o fudd i'r lleiafrif a oedd yn gorfod talu am eu gofal. Y nod oedd gwella gofal hir dymor i bawb.

Camau i'w gweithredu

- Gofynnodd y Pwyllgor am ddadansoddiad o gostau (yn cynnwys costau trafod) a chodi tâl.

Trosglwyddo Hawliau Cadwedig

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad:

- Byddai'r Cabinet yn sicrhau bod yr adnoddau a drosglwyddwyd o'r Adran Nawdd Cymdeithasol i'r Cynulliad yn ddigonol. Byddai'r materion dosbarthu yn cael eu trafod gyda llywodraeth leol yn y dull arferol.
- Cydnabuwyd swyddogaeth bwysig y sector annibynnol. Roedd hawl gan y sector i gael gwybodaeth ar y nifer o welyau a gomisiynwyd wrtho. Cytunwyd y dylai'r sector gyfrannu at y trafodaethau ar feini prawf asesu.
- Roedd angen mwy o ymgynghori gyda llywodraeth leol. Croesawodd yr aelodau y

cynnig yn ofalus ond gan bwysleisio pwysigrwydd ymgynghori.

Lleddfu'r Pwysau i Werthu'r T er mwyn Talu am Ofal

Cyflwynwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau:

- Croesawyd yr anwybyddiad tri mis er y teimlwyd y byddai chwe mis yn fwy priodol ac y dylid ailystyried hyn yn ôl profiad.
- Mae angen amddiffyn safle gofalwyr, yn enwedig mewn sefyllfaoedd pan fyddai gofalwr wedi gofalu am aelod o'i deulu am gyfnod hir o amser.
- Roedd angen mynd i'r afael â'r amrywiadau o ran arferion codi tâl mewn ardaloedd awdurdodau lleol gwahanol.
- Byddai angen ystyriaeth ofalus ar unrhyw bolisi codi tâl cenedlaethol oherwydd byddai goblygiadau i awdurdodau a oedd yn codi llai o dâl na'r gyfradd genedlaethol.

4.4. Dywedodd Mike Shanahan wrth y Pwyllgor fod pwerau gan y Cynulliad i gyhoeddi arweiniad statudol i awdurdodau lleol ar godi tâl, ond ni allent gyfeirio awdurdodau ar eu lefel codi tâl.

Casgliadau a Chamau Gweithredu Cyffredinol

4.5 Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad fod yn rhaid i'r cabinet ystyried yr ymateb i'r Comisiwn Brenhinol yng nghyd-destun ei gyllideb a'r dull gorau o wella gofal hir dymor i'r henoed.

4.6 Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Trefnydd yn gofyn am drafodaeth eang yn y cyfarfod llawn ar ofal hir dymor i'r henoed gan gynnwys materion codi tâl.

Eitem 5: Rheoliadau (Drafft) Cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phartneriaeth Awdurdodau Lleol (Cymru) 2000

Papur: HSS-16-00(p.4)

5.1 Codwyd y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Roedd aelodau yn poeni ynghylch tŷn geidwadol y llythyr ar y cyd wrth Awdurdodau Iechyd Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ond fe'u sicrhawyd bod y ddau barti yn ystyried y pwerau newydd fel cyfle aruthrol. Dylid edrych ar y ffaith eu bod wedi darparu ymateb ar y cyd fel datblygiad cadarnhaol.
- Dywedodd Graham Williams ei fod yn hyderus y byddai'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn sicr yn croesawu datblygu prosiectau gwaith ar y cyd ledled Cymru.
- Dylid annog cydweithio proffesiynol ar draws ffiniau ond byddai angen sefydlu'r

trefniadau cyllidebol angenrheidiol.

5.2 Cytunwyd bod angen gofyn i Awdurdodau Iechyd Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor. Byddai datblygiad gweithio ar y cyd yn cael ei fonitro a hwyrach y byddai gofyn iddynt fynychu cyfarfod yn y dyfodol, os byddai angen. Roedd aelodau yn fodlon ar y rheoliadau drafft.

5.3 Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad y byddai hi ac Alun Pugh yn cwrdd ag awduron y llythyr ar wahân.

5.4 Dywedodd Mike Shanahan y byddai angen rheoleiddiad byrrach arall er mwyn galluogi awdurdodau lleol i wneud taliadau i awdurdodau iechyd.

Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod ar 29 Mehefin a 5 Gorffennaf

Papurau: HSS 14-00(min) a HSS-15-00 (min)

Cytunwyd ar gofnodion y ddau gyfarfod. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

Eitem 7: Unrhyw Fusnes Arall

7.1 Roedd rhai aelodau wedi derbyn cynrychioliadau yn mynegi pryder ynglŷn ag argymhellion y grp ymgynghori arbenigol a sefydlwyd gan Jane Hutt i ddatblygu menter gofal y llygaid. Deallwyd bod y grp yn ystyried cael gwared ar y prawf golwg o'r archwiliad llygaid. Byddai cyfarfod anffurfiol yn cael ei drefnu ar frys er mwyn i aelodau Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol gwrdd â'r grp ymgynghori arbenigol a thrafod eu pryderon.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

Atodiad A

DATGANIAD AR EFFAITH YR ARGYFWNG TANWYDD AR YR NHS A'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL YNG NGHYMRU

Hoffwn wneud datganiad byr i ychwanegu at y cyfeiriad at wasanaethau iechyd a chymdeithasol a wnaed yn natganiad Sue Essex i'r Cyfarfod Llawn y bore yma.

Bydd aelodau'r Cynulliad eisoes yn ymwybodol, o'r datganiadau rheolaidd a dderbynnir gan ein Hystafell Gyfathrebu a Darllodiadau'r Cyfryngau, o'r effaith

a gafodd yr argyfwng tanwydd ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'n bwysig cofnodi pa mor gyflym yr addaswyd y cynlluniau parhad gwasanaethau a ddatblygwyd ar gyfer y Mileniwm a threfniadau ar gyfer tywydd garw a chynlluniau argyfwng eraill, i ddiwallu gofynion y sefyllfa. Cafwyd enghreifftiau da o wasanaethau iechyd a chymdeithasol yn gweithio gydag asiantaethau partner er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol. Bydd angen i ni adeiladu ar y cysylltiadau hyn wrth i danwydd ddod ar gael i sicrhau ei fod yn cyrraedd y sawl sydd ei angen er mwyn cynnal gwasanaethau hanfodol.

Yng Nghymru, fe'n heffeithiwyd gan yr argyfwng yn gynt na rhannau eraill o'r wlad. Ddoe, clywsom y Gweinidog dros Iechyd yn Lloegr yn cyhoeddi Rhybudd Coch i'r NHS. Hoffwn amlygu'r ffaith bod NHS Cymru wedi bod ar Rybudd Coch am gyfnod llawer hwy na hynny. Mae Cynlluniau Argyfwng yno er mwyn eu defnyddio, pan fo angen, er mwyn gweddu i'r amgylchiadau fel y gwnaed gennym ers y penwythnos.

Blaenoriaeth gyntaf yr NHS, y Gwasanaethau Ambiwlans a'r Gwasanaethau Cymdeithasol fu sicrhau parhad eu gwasanaethau hanfodol. Mae hyn yn cynnwys gwasanaeth ambiwlans brys, cynnal gwasanaethau ysbyty hanfodol, diogelu plant a gofal i'r sawl sy'n fwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau ac sy'n dibynnu'n fawr ar ein gwasanaethau iechyd cymunedol a chymdeithasol. Mae gwasanaethau wedi cael eu blaenoriaethu ar sail perygl ond mae'r gwasanaethau hanfodol wedi parhau yn gyfan hyd yn hyn.

Bu rhywfaint o newyddion da ynghylch y blocâd tanwydd ond nid ydym ac ni fyddwn yn diystyru difrifoldeb y sefyllfa ar draws yr NHS a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru. Er gwaethaf y newyddion da, mae'n rhaid i mi ddweud wrthyf y bydd y sefyllfa yn debygol o waethgu dros yr ychydig ddyddiau nesaf nes bod cyflenwad addas o danwydd ar gael yn eang. Mae'n rhaid i ni fod ar ein gwylidwriaeth oherwydd:

- rhoddir blaenoriaeth i staff a leolir yn y gymuned ac sy'n dibynnu ar danwydd i ddarparu gwasanaethau i'r sawl sy'n fwyaf diamddiffyn, ynghyd â'r gwasanaethau brys;
- mae'n rhaid bod staff yn ein hysbytai, cartrefi preswyl a nyrsio ac mae angen tanwydd ar y staff hynny;
- mae'r sefydliadau hyn yn dibynnu ar gyflenwadau rheolaidd o nwyddau meddygol a bwyd a gwasanaethau eraill er mwyn cynnal gweithrediad diogel

Mae'r Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol yn parhau i fonitro'r effeithiau ar wasanaethau ledled Cymru ac maent yn gweithio'n lleol gyda'r Heddlu er mwyn ceisio cael y tanwydd sydd ar gael i'r gweithwyr hanfodol.

Mae staff y Cynulliad yn parhau i weithio gyda Swyddfa'r Cabinet yn Llundain er mwyn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i'r gwasanaethau hyn a'u cyflenwyr. Mae'n bleser gennyf ddatgan bod gwasanaethau iechyd a chymdeithasol ar ben y rhestr o ddefnyddwyr â blaenoriaeth a gyhoeddwyd fel canllaw gan y Swyddfa Gartref neithiwr.

Mae'r sefyllfa gyfredol yn anwadal iawn a llunnir trefniadau gwahanol ar lefel leol. Bydd rhan helaeth yn dibynnu ar gydweithrediad y sawl sy'n gysylltiedig, yn cynnwys cwmnïau olew, heddlu, perchnogion garej a'r cyhoedd.

Er bod cyflenwadau tanwydd yn dechrau cyrraedd pobl, rydym yn poeni nad oes digon ar gael, a'i fod yn cyrraedd yn rhy araf. Mae asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol a'u staff wedi gwneud gwrthiau o ystyried yr amgylchiadau, ond mae'n rhaid i ni ddeall nad oes modd cynnal y lefel hon o ymdrech ac ymyriad am gyfnod hir.

Mae'n rhaid i ni barhau'n wylidwrus ynglŷn â'r sgîl-ffeithiau cynyddol wrth i wasanaethau gael eu heffeithio'n uniongyrchol. Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi ymdopi'n dda wrth gynnal cyflenwadau gwaed ac mae'r cyhoedd yn parhau i gefnogi sesiynau rhoi gwaed. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth hwn yn ddibynnol ar asiantaethau eraill, er enghraifft mae gallu Swyddfa'r Post i gynnal gwasanaethau post yn hanfodol i sesiynau rhoi gwaed. Mae'n rhaid i ni barhau'n effro i'r rhyng-ddibyniaethau hyn.

Nododd NHS Uniongyrchol Cymru a sefydlwyd yn gynharach eleni fel modd o ddarparu ffynhonnell o wybodaeth iechyd i'r cyhoedd, y bu cynnydd o 25% yn yr ymholiadau a gafwyd ddoe ac maent wedi cynyddu eu gallu i ymateb.

Mae cyflenwadau hanfodol yn brin; nid oes petrol yng ngheir y staff i allu cyrraedd y gwaith; mae nifer o staff bellach yn gweithio sifftiau hwy er mwyn lleihau eu teithiau. Hyd yn oed os bydd tanwydd ar gael yn ddiraffferth o'r purfeydd o heddiw ymlaen, ni fydd unrhyw lefel o normalrwydd yn dychwelyd am beth amser. Mae'n debygol felly y bydd pethau yn gwaethygu cyn iddynt wella.

Mae asiantaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn parhau i fod ar eu gwylidwriaeth ac maent yn ymateb i amgylchiadau cyfnewidiol. Mae Ystafell Gyfathrebu'r Cynulliad yn parhau ac mae staff y Gwasanaeth Iechyd a Chymdeithasol yn parhau'n rhan o'r trefniadau hynny gan weithio gyda'n partneriaid ar lawr gwlad.

Hoffwn ailadrodd y deyrnged a dalodd Sue Essex i'r holl bobl yn y Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol yr effeithiwyd arnynt gan yr argyfwng.